# Cam 7: Dylunio bwyty

## Amcanion dysgu

- Dylunio cynllun llawr bwyty
- Datrys problemau sy'n ymwneud ag arwynebedd a pherimedr

## Trosolwg o'r cam

Yn y cam hwn, bydd y plant yn defnyddio eu dysgu Mathemateg i ddylunio cynllun llawr o ardal eistedd eu bwyty. Yna byddant yn defnyddio gwefannau siopa ar-lein i gyfrifo cost eu dyluniad a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'u cyllideb.

## Deunyddiau sydd eu hangen

- Papur sgwâr
- Mynediad i'r rhyngrwyd

## Nodiadau cyflwyno

| | |
|---|---|
| Sleid 2-3: Cyflwyniad | • Cyflwyno'r dasg: mae buddsoddwr wedi rhoi rhywfaint o arian i'w busnesau ei wario ar addurno ardal eistedd eu bwytai â thema.<br>• Rhaid iddynt ddefnyddio'r gyllideb fuddsoddi i addurno'r waliau a'r llawr a phrynu'r byrddau, y cadeiriau ac unrhyw beth arall sydd ei angen arnynt i roi thema i'w bwyty. |
| Sleid 4-7: Cyfrifo arwynebedd a pherimedr | • Rhowch y dasg i'r plant o ddylunio cynllun llawr o ardal eistedd eu bwyty.<br>• Esboniwch fod angen llunio'r cynllun i raddfa addas e.e. pob sgwâr ar y papur yn cynrychioli metr yn y bwyty. Gofynnwch i'r plant ysgrifennu cofnod o hyn ar eu cynllun.<br>• Defnyddiwch y PowerPoint i adolygu sut i gyfrifo perimedr ac arwynebedd a gofynnwch i'r plant nodi cyfanswm arwynebedd llawr a pherimedr eu bwyty ar eu dyluniadau. Anogwch y plant i ddefnyddio siapiau diddorol ar gyfer eu cynlluniau llawr fel trionglau, paralelogramau a siapiau cyfansawdd. |
| Sleid 8: Mathemateg gydag ystyr | • Esboniwch, pan fyddant yn prynu cyflenwadau i addurno'r waliau a'r lloriau, bydd angen iddynt weithio allan y gwahanol arwynebau y mae angen eu haddurno a sicrhau eu bod yn prynu digon o baent, papur wal, carped ac ati ar gyfer y swydd.<br>• Rhowch fynediad i'r plant i wefan DIY fel y gallant ymchwilio i brisiau'r defnyddiau o'u dewis. |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.

| | |
|---|---|
| Sleid 9: Mathemateg gydag ystyr | • Rhowch fynediad i'r plant i wefan ddodrefn i'w galluogi i gyllidebu ar gyfer gweddill eu heitemau.<br>• Ailadroddwch y gweithrediadau y bydd angen i'r plant eu defnyddio er mwyn cyfrifo cyfanswm y costau ac aros o fewn eu cyllideb. Modelwch y dull cyfrifo yr hoffech iddyn nhw ei ddefnyddio (os oes angen).<br>• Atgoffwch y timau i ddangos eu holl gyfrifiadau cyllidebu ac arwynebedd. |

## Dolenni i'r Cwricwlwm Cenedlaethol

| Pwnc | Testun | Amcan |
|---|---|---|
| Mathemateg | Mesuriadau | • Datrys problemau sy'n ymwneud â chyfrifo a throsi unedau mesur, gan ddefnyddio nodiant degol hyd at dri lle degol lle bo hynny'n briodol<br>• Defnyddio, darllen, ysgrifennu a throsi rhwng unedau safonol, gan drosi mesuriadau o hyd, màs, cyfaint ac amser o uned fesur lai i uned fwy, ac i'r gwrthwyneb, gan ddefnyddio nodiant degol i hyd at dri lle degol<br>• Cydnabod y gall siapiau gyda'r un arwynebedd fod â pherimedrau gwahanol ac i'r gwrthwyneb<br>• Cydnabod pryd mae'n bosibl defnyddio fformwlâu ar gyfer arwynebedd a chyfaint y siapiau<br>• Cyfrifwch arwynebedd paralelogramau a thrionglau |

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.